

## **CO18059 – Mackintosh Place (Gwelliannau i'r Priffyrdd)**

### **Disgrifiad o Gynnig y Cynllun**

Codwyd pryderon o'r blaen parthed y diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr ar hyd Mackintosh Place. Hefyd mae terfyn cyflymder o 20mya mewn grym ar Mackintosh Place, fodd bynnag ymgwymerwyd ag arolygon cyflymder sy'n nodi nad yw'r mwyafrif o gerbydau'n glynu at y terfyn cyflymder o 20mya ac felly mae gofyn am fesurau tawelu traffig ychwanegol er mwyn lleihau cyflymderau cerbydau.

Yn dilyn ymchwiliadau ac arolygon sy'n cael eu gwneud, rydym yn cynnig cyflwyno nifer o weithfeydd Gwella Priffyrdd ar hyd Mackintosh Place a restrir isod:

- Cyflwyno dau fwrdd arafu rhwng cyffordd Ty'n-Y-Coed Lane a Ty'n-Y-Coed Place
- Cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig ymwithiol o gwmpas ei gyffordd â Dalcross Street. Bydd hyn hefyd yn golygu uwchraddio'r safle bysus gan gyflwyno cwrbyn i'r rhai sy'n mynd i mewn i'r bws.
- Dyrchafu cyffordd Daviot Street o gwmpas ei chyffordd â Mackintosh Place
- Adleoli croesfan sebra bresennol yn agosach at gyffordd Moy Road er mwyn dod â hi yn agosach at y llinell a ddymunir. Hefyd caiff y cyfleuster croesi presennol ei uwchraddio i groesfan sebra ddyrchafedig.
- Uwchraddio'r safleoedd bws ar Mackintosh Place. Bydd gan y safleoedd bws gyrbau uwch i roi mynediad haws i deithwyr bws

Bydd y mesurau tawelu traffig uchod yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal ar gyfer cerddwyr ond hefyd bydd yn cynorthwyo i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Mackintosh Place sy'n creu amgylchedd mwy diogel i bob defnyddiwr ar hyd y llwybr hwn.

Mae cyfyngiadau cyflymder 20 m.y.a. yn lleihau'r perygl i ddefnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed ac yn ei gwneud yn haws i ddefnyddio dulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy. Gall cymdogaethau â chyflymder traffig is hefyd gael budd o amgylchedd cymdeithasol gwell, yn ogystal â chael y cyfle i groesi'r ffordd yn haws a sicrhau amodau diogelach i bawb. Felly, mae'n hanfodol sicrhau y glynir at y terfynau cyflymder hyn neu fel arall bydd hyn yn cael effaith negyddol ar faterion diogelwch ar y ffyrdd.

## **Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig**

**Cyfyngiad 20mya** Gall car sy'n teithio ar gyflymder o 20mya stopio mewn 12 metr (40 troedfedd) o'i gymharu â 24 metr (75 troedfedd) ar 30mya. Mewn damwain, does ond perygl y byddai 1 o 20 cerddwr yn marw, o'i gymharu ag 1 o 2 pan yw car yn teithio 30mya. Mae'r ffactorau hyn yn gostwng y risg i holl ddefnyddwyr y ffordd yn sylweddol. Mewn achos cerddwyr, mae'n sicrhau bod defnyddio croesfan a cherdded ar y ffordd pan fydd angen, yn fwy diogel a derbyniol o lawer.

**Nodweddion Arafu Traffig**. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol sy'n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth, cylchfannau a nodweddion tebyg.

**Bwrdd Arafu**. Dyma amrywiad ar y twmpath arafu lle mae top yr ardal wedi'i godi (dyrchafedig) dros ddau fetr o led. Mae hyn yn peri llai o anghysur i deithwyr bysus gan fod y symudiadau lan a lawr wedi'u gwahanu gan yr adran wastad. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau i gerddwyr i leihau cyflymderau ac i wneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

**Croesfan Sebra**. Mae'r math hwn o groesfan yn addas ar gyfer mannau lle mae nifer resymol o gerddwyr yn croesi neu lif rhesymol o draffig lle na chyfiawnheir **croesfan pâl**. Gallant fod yn well i gerddwyr gan nad oes rhaid aros am amser penodol i gael yr hawl i groesi. Gallant fod yn ddefnyddiol wedi'u cyfuno â **rhwystrau ymwithiol** sy'n gwella gwelededd i gerbydau ac oddi wrthynt, lleihau pellteroedd croesi a'i gwneud hi'n gliriach pan fo cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

**Croesfan Sebra Ymwithiol**. Mae hyn yn golygu **croesfan sebra** lle y gosodir **rhwystrau ymwithiol** er mwyn culhau'r ffordd i'r maint lleiaf posib ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gwelededd i gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Weithiau, gall **bwrdd arafu** fod yn rhan o'r dyluniad.


**Croesfan Sebra Ddyrchafedig**. Mae hyn yn golygu **croesfan sebra** sydd â **bwrdd arafu** neu sydd wedi'i lleoli wrth **gyffordd ddyrchafedig**, naill ai'n rhan o set ehangach o fesurau arafu traffig neu ar ei phen ei hun.

**Rhwystr Ymwithiol**. Dyma adran o'r droedffordd sydd wedi'i lledu. Gellir defnyddio'r rhain mewn amryw ffyrdd megis ail-siapio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio a lleihau pellteroedd croesi ffordd i gerddwyr. Gallant wella gwelededd i gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

**Rhwystrau Ymwithiol wrth Gyffordd**. Mae hyn pan gaiff **rhwystrau ymwithiol** eu defnyddio wrth gyffordd. Yn y lleoliadau hyn, maent yn atal parcio cerbydau yn rhy agos at y gyffordd, yn gwella gwelededd a gallant hefyd gynnig **parcio a ddiogelir**.

# Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/transportprojects](http://www.caerdydd.gov.uk/transportprojects) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **04/01/2019**



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [Cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://Cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **04/01/2019**